# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 571 · **Ionawr 2026** · £1

# Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y dyffryn



Diolch i Nigel Beidas

## Galw Gwirfoddolwyr i gefnogi Ynni Ogwen

Wrth edrych nôl ar flwyddyn hynod o gyfnewidiol o ran y tywydd, mae Ynni Ogwen yn dymuno diolch yn ddiffuant i'r holl wirfoddolwyr a chefnogwyr sydd wedi parhau i gefnogi'r cynllun cymunedol. Er gwaethaf haf hir a sych 2025, mae'r cynllun wedi parhau i gynhyrchu'n trydan yn rhagorol. Ers cychwyn mis Mehefin 2025 cynhyrchwyd dros 317MWh o drydan 'gwyrdd' ac rydym yn rhagweld y byddwn yn pasio 500MWh erbyn diwedd y flwyddyn gynhyrchu ym mis Mai – un o'r blynyddoedd gorau ers i bŵer naturiol yr hydro yn Afon Ogwen gynhyrchu trydan yn 2017.

Ers wyth mlynedd mae'r cynllun wedi dibynnu ar grŵp bach, hynod ymroddgar o wirfoddolwyr lleol. Am gyfnod o bythefnos, deirgwaith y flwyddyn maent yn cadw llygad ar y cynhyrchiant ar-lein, yn ysgubo'r sgriniau yn yr afon pan fydd dail a brigau yn casglu arnynt, ac yn cadw llygad ar y cwt tyrbin a'r holl beirianwaith ynddo.

**Yn parhau ar dudalen 3**



# Llais Ogwan

## Rhif 571
**Ionawr 2026**


**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Rhys Llwyd**.

Y golygydd ym mis **Chwefror** fydd **Owain Evans**, 4 Rhes Mostyn, Bethesda, Gwynedd, LL57 3AB.
07588 636259
E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 31 Ionawr** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 19 Chwefror** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20 | Gwenda Davies er cof am ei gŵr, Glyn, Garej y Pandy, Tregarth |
| £20 | Er cof annwyl am Gwyn Davies oddi wrth Angela a'r plant, mam, Paul, Sioned a'r teulu. |
| £2.30 | 6 Llwyn Bedw |
| £2.30 | 8 Lwyn Bedw |
| £2.30 | 17 Ffordd Pant |
| £15 | Dr. Elwyn Jones, Ystradgynlais. |
| £30 | Ken Jones, Yr Wyddgrug. |

***Diolch yn fawr.***

## Dyddiadur y Dyffryn

**Ionawr**
27 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45
29 Neuadd Ogwen. VRi ac Angharad Jenkins. 7.30.
30 Neuadd Ogwen. Afel Bocoum.

**Chwefror**
09 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
09 Cymd. Hanes D. Ogwen. Dr. Nia Jones. Festri Jerusalem am 7.00
10 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
12 Y Gymdeithas. Pier Bangor gyda Carol ac Alison. Festri Jerusalem am 7.00.
16 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
19 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
23 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
24 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| £30 | (13) | Stephen Rees, Rachub. |
| £20 | (18) | Huw Davies, Gerlan. |
| £10 | (47) | Gillian Taylor-Williams, Bethesda. |
| £5 | (41) | Geraint Hughes, Talybont. |

***Diolch yn fawr.***

***Newyddion Chwefor i'w dderbyn erbyn 31 Ionawr. Dyddiad cyhoeddi 19 Chwefror.***










Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***



Maent yn rhoi o'u hamser, eu sgiliau a'u hegni i sicrhau cynnyrch di-dor pan fo digon o ddŵr yn yr afon. Ond wrth i'r cynllun dyfu, ac wrth i gymuned Dyffryn Ogwen elwa fwyfwy ar yr incwm a gynhyrchir, mae'n hanfodol denu cenhedlaeth newydd o wirfoddolwyr i ymuno â'r tîm a chynnal y gwaith pwysig hwn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r elw o'r hydro yn cael ei ail-fuddsoddi'n uniongyrchol yn y gymuned drwy waith Partneriaeth Ogwen, gan gefnogi prosiectau sy'n cryfhau'r economi leol, yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn darparu cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol i bobl o bob oed. Felly mae pob awr o wirfoddoli yn cyfrannu'n uniongyrchol at y budd hwn.
Ym mis Chwefror, bydd noson yn cael ei chynnal yn Nghlwb Rygbi Bethesda i ddiolch i'r gwirfoddolwyr presennol, fel sy'n arferiad blynyddol bellach. Eleni hoffem hefyd estyn gwahoddiad i griw newydd i'n plith. Felly, os oes gennych chi ddiddordeb, neu eich bod yn chwilfrydig i ddeall a dysgu mwy am y gwaith cyn ymrwymo, dewch atom i'r Clwb Rygbi am 18:30 Nos Iau 26 Chwefror – bydd paned a lluniaeth ar gael. Os na fedrwch ddod ar y noson ond eich bod eisiau cynnig help llaw neu ddysgu mwy am waith y gwirfoddolwyr, wnewch chi gysylltu â ni ar ynni@ogwen.org os gwelwch yn dda. Mae croeso i chi ffonio am sgwrs hefyd 07767 473 209.

Does dim angen unrhyw wybodaeth arbenigol i gyfrannu – bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Gyda chefnogaeth ein tîm ymroddedig o wirfoddolwyr hen a newydd, gallwn sicrhau bod Ynni Ogwen yn parhau i ymbweru ein cymuned am flynyddoedd i ddod.



**_CALENDR LLAIS OGWAN 2026_**

**_Lluniau ardderchog. Dim ond £5.00. Mynnwch eich copi_**

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (9)

## Gan **Howard Huws**

### Bwganod Llanllechid a Pesda

A pharhau efo'r bwganod. Clywais am sawl un yng nghyffiniau Rachub a Llanllechid, gan gynnwys "Bwgan Benet Wen" (cymeriad lleol a wisgai het wen) yn nhŷ Bron Arfon. Roedd pobl, yn enwedig plant, yn osgoi cerdded heibio i'r lle wedi iddi dywyllu. Mae gŵr lleol wedi sôn wrthyf am ei brofiad o, fel y bu ar waelod allt Cae Llwyn Grydd un tro am ddau o'r gloch y bore, yn ymyl y Royal Oak. Clywodd geffyl yn cerdded heibio iddo, fel petai'n dod o gyfeiriad Llanllechid: ond d'oedd yno ddim ceffyl i'w weld.

Mae rhagor. Yn ôl y sôn roedd bwgan yn hen gytiau William Saer, wedi i rywun ei ladd ei hun yno rywdro. A bwgan yng nghyffiniau'r Bwl, hefyd: roedd stryd o dai yno wrth ochr y dafarn neu'r capel, lle ni byddai neb yn preswylio'n hir oherwydd bod bwgan yn aflonyddu ar y lle. A dyna'r gweithdai sy'n sefyll gyferbyn â'r Bwl: aflonyddai fwgan yno, hefyd.





Hanesyn arall o Rachub. Gŵr a gwraig yn cerdded ar hyd y llwybr i fyny i gyfeiriad fferm Ty'n Ffridd, ar hyd llwybr cul efo ffos yn llifo yn ei ymyl. O bell, gallai'r wraig weld gwaelod côt law ac esgidiau rhywun yn cerdded tuag atynt, a gofynodd i'w gŵr symud i'r naill ochr i adael i'r dyn fynd heibio: ond roedd y drychiolaeth wedi diflannu. Flynyddoedd wedyn, clywodd y wraig fod ysbryd gŵr o'r enw John Parry yn cerdded yr ardal.

Roedd côr yn Eglwys Llanllechid adeg yr bu Deiniol Edwards yn ficar yno, a Richard Parry'r clochydd oedd yn gyfrifol am agor a chloi'r eglwys. Yr oedd ar y ddau eisiau mynd i'r eglwys un bore, ac wrth gerdded i lawr ati, gellid clywed sŵn canu mawr yno: ond cyn gynted ag y cyrhaeddwyd y drws, peidiodd y canu'n gyfan gwbl. Roedd y ddau'n tybio bod y côr yn ymarfer yno, am ryw reswm: ond o agor y drws a mynd i mewn, 'roedd y lle'n wag.

Mae ysbryd yn marchogaeth ar geffyl gwyn ym Mryn Eithin: ac yn y Fedw, mae hanes am ddynes yn marchogaeth ceffyl mewn drycin. Dychrynwyd y ceffyl, ac fe'i taflwyd hi, a bu farw. Gwelwyd ei drychiolaeth hi yn y lle hwnnw wedyn.

Ar Ffordd Coetmor, i fyny o Faes y Groes, mae Allt Rhiw Goch, neu Allt Marchogion, lle bu brwydro yn y gorffennol pell. Mae "Madam Wen" arall yno. Heb fod ymhell mae Cochwillan, "Yr Eglwys Gudd" chwedl rhai, oherwydd ffurf ei hen ffenestri, debyg. Clywais mai yno y cuddid offeiriaid rhag "Cromwell" (Thomas neu Oliver, yr oedd y naill fel y llall yn casáu'r offeiriaid Catholig) cyn iddynt ddianc dros y Fenai i Fôn. Mae hanes bwgan yno, hefyd, ar ffurf golau sydd i'w weld yn mynd ar hyd yr "eglwys."

Gan Dafydd Gwilym a Margaret ei wraig, Pant Glas, y clywais hanesyn arall. Roedd gwraig (o Fanceinion yn wreiddiol) yn byw yn y cyffiniau tua'r 1980au, ac yn tro yn cerdded ar hyd Ffordd Pant Glas o gyfeiriad croeslon Gerlan/Ffordd Ffrydlas. Clywodd ddwy neu dair o ferched yn siarad y tu ôl iddi, ac o droi i edrych arnynt, gwelodd eu bod yn gwisgo gwisg merched lleol ers talwm iawn, efo hetiau tal. Aeth y wraig ymlaen fymryn eto, a throdd i edrych ar y merched drachefn: ond roeddent wedi diflanu.

Nid bwgan pob bwgan, ychwaith. Daeth dynes i dŷ Dafydd (gyferbyn â mynwent Glanogwen) wedi dychryn, yn dweud bod rhywun yn ceisio dod allan o un o feddau'r fynwent. Aeth Dafydd Gwilym yno i weld, a beth oedd yno wedi'i ddal yn y feddgist ond myharen.

Wrth i Dafydd gerdded i lawr Ffordd Pant Glas un tro, a beth ddaeth i'w gwfwr ond dyn heb ben, a'i ben yn ei gesail. Dyma Dafydd yn ymwroli, a mynd ymlaen: a phwy oedd yno of John Saer, oedd yn gefn-gam (ac felly'n dal ei ben yn isel iawn), ac efo parsel o dan ei fraich.

Ers talwm, roedd tafarnau ar gau ar y Sul, felly byddai rhai yn prynu cyflenwad o ddiod ar nos Sadwrn i bara' tan ddydd Llun. Roedd tad Huwsi, cymeriad lleol, yn mynd i'r Douglas i brynu, ac yn cuddio'r ddiod mewn beddgist yn y fynwent fel y gallai ei nôl ar ei ffordd adref i Fraichmelyn. Un tro dyma rhywun yn ei guddio ei hun yn y feddgist, efo padell o ddŵr; a phan roddodd tad Huwsi ei law i mewn i'r gist, dyma gydio ynddi, ei rhoi yn y dŵr, a llefaru "Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd", sef agoriad y gwasanaeth claddu Anglicanaidd. Dychrynwyd tad Huwsi cymaint, ddarfu iddo ddim peidio â rhedeg hyd nes iddo gyrraedd Bont Tŵr.

Os oes gan unrhyw un o'n darllenwyr ragor o straeon am fwganod yn y fro, yna byddai Howard yn falch iawn o glywed gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07748 495537.

# Cadw crefft y crawia

gan Carwyn Meredydd Ogwen 360



Codi crawia yn Nant Ffrancon (Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

Pan fydd rhywun yn mynd am dro yn yr ardal, does dim dwywaith lle fyddwch chi os ydych chi'n digwydd gweld y crawiau llechi ar ffin llwybr neu i ddynodi diwedd un cae a ddechrau'r nesaf.

Maent yn rhan gweledol o gymeriad yr ardal, yn grefft arbennig ac yn gysylltiad clir gyda hanes diwydiannol penodol yr ardal.

**O'r Chwarel i'r Cae**

O ddiwedd y 18fed ganrif ymlaen, ffynnodd y diwydiant llechi, gan gynhyrchu nifer enfawr o ddeunydd a luniodd nid yn unig doeau ac adeiladau ond hefyd ffiniau'r tir. Roeddent yn nodi caeau da byw, terfynau ystadau, a ffermdai.

Roedd adeiladu crawiau yn grefft a drosglwyddwyd trwy'r cenedlaethau –yn adlewyrchu hanes lleol a daeareg unigryw'r ardal.

**Adfywio'r Grefft**

Gyda dyfodiad ffensys gwifren a physt pren, bu'r traddodiad yn pylu. Gyda hyn mewn golwg, mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn gweithio i adfer y grefft, gan hyfforddi ceidwaid a gwirfoddolwyr.

Yn Nant Ffrancon, cwblhawyd ffens lechi yn ddiweddar gan geidwaid a gwirfoddolwyr sy'n newydd i'r grefft. Mae'r ymdrechion hyn nid yn unig yn gwarchod sgil ond hefyd yn ailgysylltu pobl â'r tir a'i hanes.

**Sefyll am ganrif a hanner**

Meddai Tom Gould, Ceidwad: "Mae'r grefft o greu crawiau yn gymharol syml. Rydych chi'n cloddio am gyn hired y mae angen i'r ffens fynd, tua 30cm neu fwy o ddyfnder. Wedyn yr ydych yn creu traed llechi i helpu'r crawiau i aros yn gadarn trwy fwy o arwynebedd. Yna, rydych chi'n cywasgu'r pridd i atgyfnerthu'r droed a'r piler o lechan cyn lapio dau linyn o wifren o amgylch y llechi. A dyna ni fwy neu lai.

"Un o'r pethau rwy'n ei hoffi am crawiau yw bod pob ffens yn adrodd stori. Nid oes dau lechan yr un peth; mae eu siapiau a'u gwedd yn adlewyrchu daeareg y tir a hanes lleol.

"Yn wahanol i ffensys post-a-gwifren fodern, sy'n para tua 25 mlynedd mewn amodau perffaith, gall crawiau llechi sydd wedi'u hadeiladu'n dda sefyll am dros 150 mlynedd, sy'n rhyfeddol."

## Glasinfryn a Chaerhun

**Cylch Glasinfryn**

Cafwyd amser da iawn ym Mhant Du ar 10 Rhagfyr gyda bwyd ardderchog a chwmni difyr i ddathlu Parti Nadolig Cylch. Eleni yn lle cael Hosan Santa penderfynwyd gwneud casgliad at "Gafael Llaw" elusen sydd yn cefnogi plant yn dioddef â cancr. Diolch yn fawr i'r aelodau am gyfranu'n hael. Bydd y cyfarfod nesaf ar 14 Ionawr yn y Ganolfan am 2.00yp pan fydd Mr Joe Hughes o Fethesda yn dod atom i roi sgwrs ar "Hanes Teulu Abraham Wood".

Ar 11 Chwefror bydd y Cyfarfod Blynyddol a Chymdeithasol i drefnu Rhaglen y flwyddyn. Dyma gyfle i'r aelodau awgrymu siaradwyr difyr a diddorol i'r flwyddyn sydd i ddod. Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd yn y Ganolfan am 2yp

**Penblwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau a Phen Blwydd Hapus iawn i Mrs Doreen Meacock, Yr Hen Siop Glasinfryn ar ddathlu ei Phen Blwydd yn 90 oed ar 15 Rhagfyr. Cafodd ddathliad hapus iawn ymhlith ei theulu a'i ffrindiau.

**Ymweliad Sion Corn**

Daeth Sion Corn a'i Gorachod ar ei daith o amgylch y fro unwaith eto eleni, gan alw ym Mhentir, Caerhun, Waen Wen a Glasinfryn cyn mynd yn ôl i Fethesda. Diolch yn fawr i Bwyllgor Carnifal Bethesda am drefnu yr achlysur flynyddol sydd yn cael ei werthfawrogi yn fawr gan yr hen a'r ifanc ym Mro Ogwen.


CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653





Mark Davies
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru
MCEA



Prifysgol Bangor University
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

Ystyried dysgu rhywbeth newydd?

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

Cysylltwch!
cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Llais. Ar gychwyn blwyddyn newydd dymunwn bob iechyd a llawenydd i chi i gyd a chofiwch fod y Llais yn bapur newydd i bob un ohonoch ac felly anfonwch eich newyddion i bob gohebydd ym mhob pentref yn Nyffryn Ogwan.

Dymuniadau gorau i Fred Buckley, Maes Ogwen sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Gwynedd. Mae Fred wedi rhannu Llais Ogwan yn ei ardal ers blynyddoedd.

**Priodas Pum Mil**
Dyna braf oedd cael ymuno gyda'r rhaglen deledu boblogaidd Priodas Pum Mil gyda Trystan Ellis Morris ac Emma Walford yn trefnu priodas cwpwl o Dregarth. Llongyfarchiadau fil i Dwynwen a Lee o Erw Faen, a briodwyd yn Eglwys Sant Cedol Pentir yn ddiweddar a dymunwn bob hapusrwydd i chi eich dau ac i Tomos ac i Beca. Priodas arbennig o hardd a diolch am gael bod yn rhan o'ch priodas drwy wylio'r rhaglen. Os na welsoch y rhaglen mae ar gael ar iplayer neu Clic S4C ac mae'n werth ei gwylio.



Dwynwen a Lee

**Profedigaeth**
Ar Ragfyr 10, yn Ysbyty Eryri, bu farw John Davies, Tanysgrafell Isaf, yn 92 oed. Roedd John yn briod â Gwen, yn dad i Paul a'r diweddar Gwyn, yn dad nghyfraith i Sioned ac Angela ac yn daid i Kevin, Ceri, Kathryn, Gwenno , Joanna a Manon, ac yn hen daid i'w holl wyrion a wyresau. Roedd hefyd yn frawd i Myfanwy a'r diweddar Dave. Bu ei angladd ym Mynwent Coetmor ar Ragfyr 31. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf atoch fel teulu ar adeg mor drist.

Ar Ragfyr 18 daeth y newyddion am farwolaeth Eleanor Holland (Linor) yn ei chartref Perthi, Tregarth a hithau yn 97 mlwydd oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Phil ac yn fam i Einion a Phil, yn fam yng nghyfraith ac yn chwaer i Margaret a'r diweddar Glenys a Jini , yn nain a hen nain i'r plant.

Cofiwn yn annwyl am Linor yn athrawes ysbrydoledig a dylanwadol yn Ysgol Gynradd Tregarth am flynyddoedd. Bydd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Ionawr 16. Mae ein cydymdeimlad gyda holl deulu Linor ar ei hymadawiad diweddar.

Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth Doreen Owen, Coedlys, Ffordd Tanrhiw. Roedd ei diweddar ŵr, Gwilym Owen, yn Bostfeistr y pentref, ac roedd Doreen yn fam i Gwyneth a Gillian. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at y merched a'r holl deulu. Mae Gwyneth wedi byw gyda'i mam erioed ac mae ei marwolaeth wedi bod yn gryn sioc iddi hi a'i chwaer Gillian, sydd yn byw yn Portsmouth. Meddwl amdanoch eich dwy.

Cydymdeimlwn â Pat Jones, Penrhyn View a gollodd ei chymar John yn sydyn cyn y Nadolig.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Val a Henry Hayward, Bro Derfel ar ddod yn hen nain a thaid: merch fach i Jac eu ŵyr.

**Cangen Tregarth o Ferched y Wawr**
Gwledda fu hanes y Gangen ar gychwyn Mis Rhagfyr a hynny yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Paratowyd pryd o fwyd Nadoligaidd bendigedig gan Wayne a
Staff y Clwb a phawb wedi gwir fwynhau'r wledd. Diolchodd y Llywydd, Carys Dafydd , i bawb fu'n paratoi a chafwyd cwis hwyliog i ddiweddu'r noson.

Ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal ym Mis Ionawr ond cawn gyfle i ymuno Nos Lun, Chwefror 2, pan ddaw y llenor o Benygroes, sef Angharad Tomos, atom a theitl y sgwrs fydd 'Castell Siwgwr', a'r gystadleuaeth fydd 'Chwalfa'. Dewch i ymuno hefo ni i Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30 o'r gloch. Bydd yn noson werth chweil!




L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

## Capel Shiloh Newydd

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Ionawr 18 – R.O.Jones, Gaerwen
Ionawr 25 – Dr Ian Morris
Chwefror 1 – Huw Pritchard, Llangefni
Chwefror 8 – Eurfryn Davies, Llandegfan
Chwefror 15 – Dr Ian Morris
Chwefror 22 – Nerys Griffiths, Caernarfon
Mawrth 1 – Dr Alun Morton Thomas, Porthaethwy
Mawrth 8 – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Mawrth 15 – Eleri Lloyd Jones, Bangor

Dymunwn wellhad i rai o'n haelodau sydd heb fod yn dda yn eu cartrefi, mewn ysbytai a chartrefi gofal. Yn eu mysg mae Noreen Jones, Bethesda. Nid yw Noreen wedi medru dod i'r oedfa ers tro byd a byddwn yn meddwl amdani. Mae Helen Wyn, Bro Derfel ac Anwen Griffiths, Dwygyfylchi, wedi cael triniaethau yn ddiweddar a dymunwn wellhad llwyr i'r ddwy ohonoch. Anfonwn ein cofion hefyd at Norah O'Brien, Bangor, ac Islwyn Evans, Llanfairfechan gan obeithio fod y ddau ohonoch yn cryfhau.

Cafwyd Oedfa Nadolig gartrefol a bendithiol, Pnawn Sul, Rhagfyr 21, gyda chyfle i bob un aelod ddewis darn Nadoligaidd o'i ddewis i hun. Diolch am eich dewisiadau diddorol ac amrywiol mewn darlleniadau Beiblaidd, barddoniaeth, unawdwyr a deuawdwyr, carolau a gweddiau, yn ogystal ag unawd gwefreiddiol gan Wynn Roberts ar yr organ. Mawr yw ein diolch.

Nos Sul roedd y capel yn llawn gyda chyngerdd gan Ysgol Glanaethwy ar y thema 'Dawel Nos' dan arweiniad Cefin a Rhian Robrts a'r cyfeilydd Elen Keen. Noson arbennig iawn yng nghwmni'r ieuenctid a noeson nad anghofir yn hir. Diolch am ddod i gynnal eich cyngerdd Nadoligaidd yn Shiloh eto leni.

Dymunwn, fel capel, gydymdeimlo gyda teulu yr Ymgymerwr Angladdau Gareth Wyn Williams, Llwyn Bedw, Llanllechid, fu farw ar Dachwedd 17. Bu Gareth yn gysylltiedig a llawer o deuluoedd yn y pentref ac yn gefn a chymwynasgar ar amseroedd anodd a thrist. Cofiwn amdano yn Shiloh am ei broffesiynoldeb a'i natur hynaws ac mae'n drist meddwl na chawn gydweithio gydag ef yn y dyfodol. Anfonwn ein cydymdeimlad i Gwenan, ei blant a'r holl deulu.

**Drws Agored**
Ydi, mae'r drws ar agor bob bore Gwener fel arfer, rhwng 10 a 12.00 o'r gloch. Trowch i mewn am baned, cwmni a chynhesrwydd. Ar agor i BAWB!

# YSGOL TREGARTH

**Ffair Nadolig**
Cynhaliwyd ffair Nadolig arbennig o lwyddiannus yn yr ysgol gyda nifer o stondiau amrywiol, raffl, bwyd ac roedd cyfle i ymweld â Siôn Corn yn ei groto. Roedd pob dosbarth wedi paratoi crefftau i'w gwerthu ar y noson a rhai o'r plant wedi cynllunio gemau i'w chwarae. Diolch o galon i aelodau'r gymdeithas rhieni ac athrawon a fu wrthi'n weithgar iawn yn paratoi at y digwyddiad ac am eu gwaith yn ystod y ffair. Rydym yn ddiolchgar iawn o'ch cefnogaeth i'r ysgol ac yn lwcus ohonoch. Llwyddwyd i gasglu dros £700 ar y noson – gwych! Diolch i'r busnesau lleol ddaeth draw i'n cefnogi ar y noson, sef Bubble Waffle, Growing for Change, Picamics a Petals, Tamad, Cwfen Crefft, Celf Elen Williams a heb anghofio Siôn Corn hun a ddaeth draw atom ar adeg mor brysur.

**Cyngerdd Nadolig**
Roedd ein cyngerdd eleni ychydig yn wahanol i'r arfer gan ein bod wedi penderfynu defnyddio neuadd yr ysgol fel lleoliad. Bu plant y dysgu sylfaen yn perfformio gyntaf, sef y sioe 'Nadolig heb wi-fi' ac yna'r plant hŷn gyda'r sioe 'Carol i Gymru'. Roedd ôl ymarfer mawr ar y perfformiadau a'r plant i gyd wedi gwneud eu gwaith yn wych gan fwynhau actio a chanu. Roedd y neuadd dan ei sang ar gyfer pob perfformiad. Diolch i Nigel am gael benthyg goleuadau ar gyfer y perfformiadau, roedd hyn bendant yn ychwanegu at naws y sioeau. Diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am gael benthyg y system sain. Wrth gwrs, fedrwch chi ddim cael sioe heb lwyfan ac rydym yn hynod ddiolchgar i C.L. Jones am y rhodd o bren ar gyfer creu'r llwyfan. Rhaid diolch hefyd i Craig Rockliff a Mr Edwards am eu holl waith yn gosod y llwyfan at ei gilydd – pwy fuasai'n meddwl fod ein pennaeth yn dipyn o saer coed hefyd?

**Gwasanaeth Nadolig**
Cawsom wasanaeth bendithiol gan y Parch Sara a'r Parch Gareth Lloyd cyn i ni gau am y gwyliau. Diolch i'r ddau am ddod draw atom a'n hatgoffa o wir ystyr y Nadolig a diolch hefyd am ddod atom drwy gydol y flwyddyn. Rydym bob amser yn falch o'ch gweld.

**Pili Palas**
Mae ymweld â Siôn Corn ym Mhili Palas bellach yn draddodiad yn nosbarth Elidir Fawr. Roedd y plant wedi llwyr fwynhau cael crwydro Pili Palas, chwarae a chyfarfod y dyn ei hun am sgwrs ac anrheg.

**High School Musical – Ysgol Dyffryn Ogwen**
Aeth plant blwyddyn 3-6 draw i Ysgol Dyffryn Ogwen i wylio perfformiad o'r sioe 'High School Musical'. Roedd yn braf cael ymuno gyda phlant y dalgylch a gweld rhai o'n cyn-ddisgyblion yn cymryd rhan yn y perfformiad. Diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am y gwahoddiad i ddod draw.

**Cinio Nadolig**
Unwaith eto eleni, roedd canmol mawr i'r cinio Nadolig a phawb wedi mwynhau bwyta llond eu boliau. Diolch yn fawr iawn i Anti Fiona ac Anti Marian a fu wrthi mor brysur yn chwysu yn y gegin a dymunwn wellhâd buan i Anti Shirley gan obeithio y bydd yn nol hefo ni'n fuan iawn. Diolch hefyd i'r dair am baratoi cinio blasus i'r plant bob dydd yn ystod y flwyddyn.

**Blwyddyn newydd dda**
Hoffai pawb yn yr ysgol ddymuno blwyddyn newydd dda yn llawn hapusrwydd i bawb.

## CNEIFIO CYFLYM DYFFRYN OGWEN 2025

Yn dilyn diwrnod llwyddiannus Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen eleni, daeth Fiona Evans ar ran Sefydliad DPJ, elusen iechyd meddwl sy'n ein cefnogi yn y sector amaethyddol, i dderbyn rhodd o £1,000.00 o bunnoedd.

Yn ogystal a hyn roedd rhai o'r plant ifanc wedi bod yn mynd o amgylch yn hel pres i'r bwced ar y noson a wedi casglu £146.60.

Dymunwn ddiolch o galon i Wayne a Sue Eccles a Clwb Rygbi Bethesda, i'r holl noddwyr hael ac i bawb a gyfrannodd a'n cefnogodd i wneud y digwyddiad yma'n llwyddiannus unwaith eto.




ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

Ogwen Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

# CHWILAIR

## Cyngor Dinesig Bethesda yn y 50au

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg aelod o GYNGOR DINESIG BETHESDA YN Y 50AU i'w ddarganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Ionawr 2026. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Dim gymaint o atebion wedi dod trwy'r post y mis yma, pawb yn brysur yn paratoi am y Nadolig mae'n siŵr. Ar ôl dweud hynny nifer ohonoch wedi methu SGWÂR RACHUB yn y Chwilair. Rwyf wedi nodi dyddiad yr erthygl ar wefan Hanes Dyffryn Ogwen, mewn cromfachau ar ôl yr ateb, rhag ofn bod gennych ddiddordeb yn darllen yr hanesion ar y wefan. Diolch hefyd am y cyfarchion Nadolig, a dymuniadau gorau am y Flwyddyn Newydd a hefyd am y geiriau caredig am y Chwilair.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | **L** | **E** | **N** | **A** | **R** | **D** | **J** | **O** | **N** | **E** | **S** | I | E | J |
| L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V |
| H | M | S | N | A | V | E | N | Y | L | G | N | H | O | J | D | W | H | U | Z |
| M | X | V | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | H | R | P | Y |
| Q | H | U | G | H | A | R | T | H | U | R | E | V | A | N | S | T | G | L | Z |
| G | R | H | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | R | A | S | Z | I | L | E | U |
| T | F | D | X | U | P | W | R | H | C | Q | T | H | S | W | S | F | Y | W | E |
| H | O | Y | E | E | G | E | O | M | H | H | E | E | P | M | T | F | N | I | T |
| C | B | B | C | U | U | J | P | L | U | T | N | M | A | I | V | I | O | S | V |
| D | C | B | B | F | R | F | O | R | G | O | J | I | V | I | I | R | W | J | R |
| R | X | I | M | H | T | T | E | O | J | S | L | K | O | P | W | G | E | O | R |
| C | M | K | C | B | O | D | R | N | C | L | X | V | R | Y | H | S | N | N | S |
| T | M | R | E | F | W | Y | Y | J | I | D | Z | H | B | C | W | Y | O | E | S |
| C | R | A | I | A | X | L | N | W | I | N | L | X | J | J | M | R | B | S | W |
| T | E | X | R | M | M | D | T | X | K | F | E | U | P | C | Q | M | Y | O | I |
| L | F | D | E | E | R | S | Z | Q | R | O | C | W | T | D | G | E | W | S | L |
| Z | S | E | B | E | E | A | M | E | R | F | Y | N | O | W | E | N | J | K | J |
| C | L | N | L | N | R | V | O | G | J | P | W | P | G | M | S | O | W | J | J |
| Q | U | L | R | G | L | Y | N | N | E | J | O | N | E | S | O | F | S | V | T |
| X | E | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | T | T | Z | H | K |

**Dyma atebion Chwilair Rhagfyr:** Braichmelyn, (Tach 29, 2021); Caethwasanaeth, (Ebrill 29, 2022); Capel Ogwen, (Medi 17, 2017); Chwarel y Foel, (Hyd. 27 2015); Llwybrau Coed y Parc, (Ebrill 25, 2020); Pentref Llanllechid, (Ebrill 28, 2023); Persondy St. Annes, (Ion. 25, 2015); Sgwâr Rachub, (Ebrill 27, 2017); Tan y Bwlch, (Tach. 17, 2018); Tŷ'n Twr Village, (Awst 29, 2021); Yr Eglwys Gatholig, (Awst 26, 2016); Ysgol Tan Capel, (Tach. 30, 2020).
**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Huw Williams, Erw Las; Eirwen Owen, Erw Las; Rosemary Williams, Tregarth; Gwen Davies, Tanysgrafell; Doris Shaw, Bethesda; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan.
**Enillydd Rhagfyr oedd:** Huw Williams, 4 Erw Las, Bethesda


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

| cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru |
|---|---|---|---|---|
| 07765 400140 | 07747 690456 | 07789 742092 | 07436 927237 | 07949 034967 |
| Arllechwedd | Gerlan | Canol Bethesda | Tregarth & Mynydd Llandygai | Rachub |



# Dyn Wedi Ei Saethu Ym Methesda

## gan Andre Lomozik

Dydd Mercher, Hydref 4, 1884, bu digwyddiad difrifol yn Bethesda, pan saethwyd bachgen ifanc o'r enw Robert Jones, Pen-y-Bryn, gan Isaac Hughes, brodor o Benisa'rwaen, ond yn was amaethyddol yng Nghoed Isaf, Llanllechid. Yn ôl adroddiadau yn y papurau newydd yr oedd Isaac, er yn fachgen ifanc wedi bod yn ymhel â diod feddwol yn ystod y dydd, cyn iddo fynd i oriel saethu oedd wedi ei leoli ddim ymhell oddi wrth gorsaf drên Bethesda. Roedd yr oriel yn cael ei chynnal gan ddyn o'r enw Chapman, ac roedd Isaac eisiau cael trio ei law ar saethu yn y stondin, ond nid oedd y ferch a ofalai am y stondin yn fodlon iddo afael ar wn oherwydd ei gyflwr. Pan oedd hi wedi mynd i ran arall o'r stondin gafaelodd Issac yn un o'r gynnau, ond daeth y ferch yn ôl a cheisio cymryd y gwn oddi arno. Wrth wneud hyn fe daniodd y gwn a saethu Robert Jones, a oedd yn sefyll gerllaw, yn ei ben. Cludwyd Robert i'w gartref mewn cyflwr anymwybodol tra dihangodd Isaac i ffwrdd mewn dychryn.

Galwyd ar Doctoriaid Roberts a Hughes at y claf a darganfuwyd fod y belen wedi ei daro yn ochor chwith ei ben gan aros yn yr ymennydd, ac yn amhosib ei chael allan. Bu Robert Jones farw y noson honno. Daethpwyd o hyd i Isaac Hughes yn cuddio mewn cwpwrdd yn ffermdy Coed Isaf gan yr Arolygydd Hughes a chymerwyd ef i'r ddalfa. Creodd y digwyddiad gyffro mawr yn yr ardal.

Dydd Llun cynhaliwyd trengholiad ar gorff Robert Jones, ger bron Mr G. Thomas. Yr erlynydd ar ran y heddgeidwaid oedd Major Clayton, ac amddiffynwyd gan Mr S. R. Dew. Ar ôl gwrandawiad ar y gwahanol dystiolaethau dychwelwyd rheithfarn o "Farwolaeth Ddamweiniol." Y dydd Mawrth, Hydref 7fed, dygwyd Isaac Hughes ger bron ynadon Bangor, i wneud ymchwiliad pellach i'r achos.

Yna yn Y Gwyliedydd, Hydref 29, 1884, cawn yr adroddiad yma:- YR ACHOS POENUS O SAETHU YN BETHESDA – *Dydd Sadwrn, yn mrawdlys Caer o flaen y Barnwr Cave, gosodwyd Isaac Hughes, labrwr, 18 mlwydd oed, yr hwn oedd wedi ei ryddhau o dan feichnafaeth, i sefyll ei brawf ar y cyhuddiad o lofruddio un Robert Jones, yn Bethesda, ar y 4ydd cyfisol. Erlynid gan Mr Colt Williams, ac amddiffynid y carcharor gan Mr M. Douglas. Mae ein darllenwyr yn hysbys o ffeithiau yr achos poenus hwn, fel na raid i ni eu hailadrodd yn y fan hon. Ar ran y carcharor dadleuai Mr Douglas mai yn ddamweiniol hollol y dygwyddodd, yn gymaint ag nad oedd y carcharor wedi cymeryd gafael yn y dryll yn y ffordd arferol.- Dychwelodd y rheithwyr reithfarn o "Ddieuog," a rhyddhawyd y carcharor.*

Dim marwolaeth Robert oedd yr unig golled i'w rieni fel mae yr ysgrif ar y garreg fedd yn Eglwys Crist Glanogwen yn tystio.

"Er serchog gof am blant John ac Ann Jones, 59 Pen-y-Bryn, Ann a fu farw Gorph. 5, 1863, yn 4Ml. oed. Ac Elizabeth a fu farw Gorph. 26, 1863, yn 6 Ml. oed. Thomas a fu farw Hydref 16, 1868 yn 1½ Ml. oed. Hefyd Robert Jones a fu farw Hydref 4, 1884, yn 20 mlwydd oed."

## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid Rhagfyr 2025




Cynhaliwyd cyfarfod olaf 2025 ar Nos Fercher y 10fed o Ragfyr. Mae diwedd y flwyddyn wedi gweld pethau yn cychwyn gyda prosiect Cae Peldroed Cymunedol Talybont. Mae Gwaith wedi cychwyn ar gam cyntaf y datblygiad. Edrychwn ymlaen gweld y datblygiad yn symud yn ei blaen. Mae'r cam yma o'r brosiect wedi ei ariannu gan grant GwyneddNi gan Gyngor Gwynedd.

Mae ennillwyr y gystadleuaeth arlunio wedi eu cyhoeddi; Tal Lewis-Williams yn gyntaf, a Kurt Leonard yn ail. Y ddau o flwyddyn 6, Ysgol Llanllechid.

Diolch i'r holl blant ddaru gystadlu. Roedd yr amrywiaeth o ddarlunio manwl a dyfeisgar i ddyluniadau llachar a syfrdanol wedi ei gwneud yn anodd iawn dewis. Dewiswyd 5 i'r rhestr fer, a'r dewis terfynnol gan y cyhoedd. Diolch yn fawr i chwi a gymeryd yr amser i bleidleisio i'ch ffefryn, braf i'r plant cael gweld eu gwaith yn cael ei werthfawrogi.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau oedd yn fuddugol.

Llun Talybont

Ar drywydd arall, trefnwyd i dorri'r gordyfiant ym mynwent eglwys Llan, a dwi'n siwr y cytunwch, mae'n edrych lawer gwell.

Ac i orffen, hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd dda i bawb.


JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.

**YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE**
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**

Ychydig cyn y Nadolig, daeth y newyddion trist bod Mrs. Elizabeth Pritchard, Glan Bethlehem, wedi'n gadael. Roedd Liz yn dioddef gydag anhwylder ar ei brest erstalwm ac wedi treulio amser yn yr ysbyty o bryd i'w gilydd. Ar ôl iddi ddod adref ar ddiwedd Tachwedd, bu'n aros yn Dolhelyg, lle y derbyniodd ofal tyner gan ei dwy ferch, Tracey a Cindy. Yn anffodus, fe waelodd yn sydyn a gorfod dychwelyd i'r ysbyty, lle bu farw'n dawel ar ddydd Gwener, Rhagyr 12ed.

Collodd Liz ei phriod, Richard, ddwy flynedd yn ôl ac, er gwaetha'r holl gariad a sylw gafodd gan y teulu, bu bywyd byth yr un peth iddi. Bydd y teulu agosaf yn ffarwelio â hi yn Amlosgfa Bangor yng nghanol mis Ionawr. Estynnwn gydymdeimlad dwys atynt i gyd yn eu hiraeth.

**Torri asgwrn**

Mae Jane Griffiths, Tŷ Mawr, wedi torri garddwrn ei llaw dde. Mae torri unrhyw asgwrn yn boenus ac yn gloffrwm, ond mae torri garddwrn yn arbennig o anhwylus, yn enwedig o fewn ychydig o ddyddiau i'r Nadolig. Mae'n dda bod Frank wrth law i ofalu amdani a'i helpu.

Brysia wella, Jane, a diolch am dy gefnogaeth barod i weithgareddau yn y pentref.

**Apêl**

Mae hi'n ddwy flynedd a hanner ers i Alun Thomas, fferm Ty'n Hendre ddioddef damwain erchyll i'w droed a'i ffêr. Ers hynny mae o wedi cael naw o driniaethau a sawl haint ar y briw. Ar ddechrau mis Rhagfyr, er gwaethaf ei ddewrder, a'i benderfyniad i ddal ati i weithio, mae Alun wedi gorfod cael triniaeth fydd yn sicr o newid ei fywyd am byth.

Mae ei deulu a'i ffrindiau, amaethwyr yr ardal, wedi gwneud y cwbl o fewn eu gallu i'w helpu efo gwaith ar y fferm ond, yn dilyn y driniaeth ddiweddaraf, bydd angen pob cymorth posibl arnynt.

Mae Ceri, merch hynaf Alun ac Anita, wedi cychwyn Apêl ar 'Facebook', yn y gobaith bydd o gymorth i leddfu ychydig ar y costau mawr fydd yn eu gwynebu.

Anfonwn ddymuniadau da yr ardal gyfan at y teulu ar amser anodd iawn yn eu hanes.

**Codi allan**

Gyda chymorth Richard, ei mab, sy'n llywiwr cadair olwyn penigamp, llwyddodd Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, i rannu ei chardiau Nadolig o gwmpas y pentref. Roedd y tywydd yn braf, er yn oer, a chawsant fynd yn eu blaenau i fynwent Eglwys S. Cross. Roedd Gwasanaeth Carolau ymlaen yn yr eglwys ar y pryd, a chafodd Rhiannon wrando ar rai o'r darlleniadau a'r canu. Ar ôl bod yn gaeth i'r tŷ, oherwydd y gwyntoedd mawr a'r glaw, braf oedd cael mynd i'r awyr iach a chyfarfod â rhai o'i ffrindiau. Edrychwn ymlaen at y Gwanwyn, iddi gael sawl trip arall.

**Cyfarchion**

Ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd, dymunwn iechyd da a phob bendith i'n ffrindiau i gyd yn y Dyffryn a thu draw.

### Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Ionawr 18: Mr. Dafydd Iwan.
Ionawr 25: Parchg. Gwenda Richards.
Chwefror 01: Parchg. Cledwyn Williams.
Chwefror 08: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Chwefror 15: Parchg. Megan Williams.
Chwefror 22: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.

*Croeso cynnes i bawb.*

**Bwrlwm Bethlehem**

Bydd cyfarfodydd Bwrlwm yn cael eu cynnal bob yn ail ddydd Iau am 2 o'r gloch o 22 Ionawr ymlaen.
Croeso cynnes i bawb i fwynhau sgwrs a phanad.

**Ffair Nadolig**

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod elw ein Ffair Nadolig eleni yn £899.30. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ragorol unwaith eto.

**Clwb Coffi Talybont**

Coronwyd tymor difyr a llwyddiannus y Clwb gyda'r ffyddloniaid yn mwynhau Bwffe Nadoligaidd ar 8 Rhagfyr. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwledda, ac aethant adref bob un gyda gwobr raffl. Diolch i Cegin Karen, Bethesda am baratoi'r danteithion ar ein cyfer.

Bydd y tymor nesaf yn cychwyn ar fore Llun, 9 Chwefror o 10.30 tan 12.00 yn Festri Capel Bethlehem. Dewch draw am banad a sgwrs. Cewch groeso cynnes.

## Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**Oriau Agor**

Dyma oriau agor y llyfrgell erbyn hyn:
Dydd Llun: 10:00-12:00 ac 1:00-5:00.
Dydd Mawrth: AR GAU .
Dydd Mercher: AR GAU.
Dydd Iau: 10:00-12:00 ac 1:00-5:00.
Dydd Gwener: 2:00-5:00.
Dydd Sadwrn: 10:00-12:00.
Dydd Sul: AR GAU.

**Cofiwch am y sesiynau canlynol:**

'Ji Babi Bach' – pob bore Llun 10:30-11:15. Sesiwn ganu, a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian na cherdded

'Paned a Sgwrs' pob bore Iau - 10:30 – 11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg.

'Gwynedd Ddigidol' - pob bore Iau 10:00-12:00. Os ydych angen cymorth gyda'ch tabled, ffôn neu gyfrifiadur, bydd Llion Elis ar gael i'ch helpu.



**Llion Elis yn rhoi cymorth technegol i rai o'r trigolion.**



**Criw 'Ji Babi Bach' yn mwynhau sesiwn gydag Eleri Fôn yn y llyfrgell.**



# Y Llwynog (2)

Daear, sef ffau danddaearol, yw cartref teulu o lwynogod, boed mewn twll yng nghysgod coedwig yn drwch o ddrysi, yng ngheudod hafn cysgodol neu yn ddwfn rhwng creigiau yn y mynydd. Mewn coedwig byddant weithiau'n rhannu daear moch daear. Yn y gwanwyn bydd y llwynoges yn esgor ar dorllwyth o bedwar neu bum cenaw, a bydd y ddau riant yn eu magu gan gynnwys cario bwyd iddynt. Erbyn yr hydref, bydd y cenawon yn hunan-gynhaliol, efo rhai'n symud i sefydlu eu tiriogaethau eu hunain, ac eraill yn aros yn rhan o'r teulu.

Fodd bynnag, ni fydd llwynogod yn hela fel teulu. Ar eu pennau eu hunain yr ânt allan yn y nos i hela, ac mae'n debyg mai llwydwyll y cyfnos a llwydolau'r wawr yw'r adegau gorau ganddynt o ran dal ysglyfaeth. Yn aml, byddant yn crwydro ymhell i hela, ac mae tiriogaeth llwynog mynydd, yn y Carneddau er enghraifft, yn go helaeth. Mae gennym ddihareb – 'Ymhell mae llwynog yn lladd' – i ddisgrifio rhywun yn defnyddio cyfrwystra i wneud drygioni drwy gyflawni'r weithred yn y fath fodd fel na fydd neb yn ei ddal.

Wrth gwrs, mae ffordd o fyw y llwynog trefol yn wahanol iawn, ac mae o wedi hen ymgyfarwyddo â'i gynefin newydd. Daeth yn llai ofnus o bobl ac yn fwy hy a mentrus mewn sawl ffordd. Ers degawdau, mae o wedi arfer chwilota am fwyd mewn strydoedd a gerddi, efo biniau sbwriel yn darged amlwg ganddo. Daeth i adnabod rhwydwaith y strydoedd a'r lonydd cefn, y gerddi a'r parcau cyhoeddus, fel y medr ddiflannu o olwg erlidwyr pe bai angen. Hefyd, daeth i'r arfer o wneud ei ddaear i fagu'r rhai bach o dan sied mewn gardd neu mewn llecyn diddos o'r neilltu fel hen adeilad diwydiannol.

Mae llawer o drafod ar y priodoldeb o hela llwynogod. Mae ei hela drwy ddefnyddio cnud o helgwn, efo'r helwyr ar gefn ceffylau – 'y cotiau cochion' – yn draddodiad a ddaeth o Loegr i Gymru yn yr 17g drwy gael ei fabwysiadu gan y tirfeddianwyr. Yn naturiol, nid oedd y dull hwn o hela'n addas ar gyfer y mynydd-dir, a defnyddid llai o gŵn, efo'r helwyr, a oedd yn cynnwys ffermwyr, yn cerdded i fyny'r llethrau hyd at y copaon creigiog yn ceisio codi trywydd llwynog.

Yn 2004, cafwyd deddf gan y llywodraeth yn Llundain yn gwahardd hela llwynog efo cnud o gŵn hela yn Lloegr a Chymru. Credid bod y dull hwn o ladd llwynog, sef ei larpio gan gŵn, yn rhy greulon. Fodd bynnag, caniateid ei hela efo dau gi drwy ei godi, sef ei orfodi i ddod allan o'i ddaear neu guddfan arall, a'i saethu. Hefyd, mae'r ddeddf yn caniatáu yr hyn a elwir yn hela trywydd, hynny yw gosod trywydd smal i'r helgwn. Felly, mae'r helwyr yn cael marchogaeth eu ceffylau a dilyn y cŵn, ond bod y cŵn yn dilyn trywydd ffals, sef oglau dŵr llwynog wedi ei osod dan drefnwyr yr helfa mewn llecynnau penodol fel ag i wneud cwrs ar eu cyfer.

Bydd hyd yn oed hela trywydd yn anghyfreithlon gyda hyn, a hynny oherwydd bod llywodraeth San Steffan wedi derbyn tystiolaeth fod nifer o helfeydd yn twyllo, efo llwynogod yn dal i gael eu hela a'u llarpio gan gnud o helgwn.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Bethesda**
Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i drigolion Bethesda a chofiwn at unrhyw un sy'n dioddef o anhwylder neu yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlo**
Ar Ragfyr 10fed bu farw John Davies, Tanysgrafell Isaf yn Ysbyty Eryri yng nghwmni ei deulu. Roedd yn briod cariadus i Gwen ac yn dad arbennig i Paul a'r diweddar Gwyn, a thad yng nghyfraith i Sioned ac Angela. Taid hoffus Kevin, Ceri, Kathryn, Gwenno, Joanna a Manon, hen daid ei wyrion a'i wyresau a brawd annwyl Myfanwy a'r diweddar Dave. Cynhaliwyd gwasanaeth ar lan y bedd ym mynwent Coetmor ar ddydd olaf 2025. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Trist oedd y newyddion am farwolaeth Owain Llywelyn Jones, mab y diweddar Gynghorydd Ieuan Llywelyn Jones a'i wraig Eurwen, y ddau ohonynt yn athrawon yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac yntau Owain wedi ei addysgu yno ac wedi byw yn Stâd Coetmor a Ffordd Bangor. Cydymdeimlwn efo'i deulu a'i gydnabod.

**Siop Spar**
Mae Londis wedi agor fel Siop Spar ers dros dri mis bellach ac wedi masnachu'r Nadolig cyntaf dan yr enw hwnnw ac yn dal i gadw nifer iawn o stoc lleol. Pob hwyl i Jonathan a'r staff yn 2026 a diolch iddynt a staff y post am y croeso bob amser.



Jonathan gyda Dennis Dart a oedd yn cadw'r Spar cyntaf ym Methesda a hynny y pen arall yn nhop y Stryd Fawr.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

*CALENDR LLAIS OGWAN 2026*
*Lluniau ardderchog.*
*Dim ond £5.00.*
*Mynnwch eich copi*

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Ffair Nadolig**
Diolch i bawb a gefnogodd y Ffair Nadolig ar Ragfyr 13 mewn unrhyw fodd – trwy drefnu, rhedeg, cyfrannu a mynychu ar y bore, braf iawn o weld yr eglwys yn fyrlymus a phawb yn hwyliog. Diolch i Christine ar yr organ a'r criw Boncathod am ychwanegu at yr awyrgylch Nadoligaidd – gwerthfawrogwyd yn fawr.

Braf yw cofnodi i'r achlysur godi bron i £600, fydd o help mawr tuag at drwsio'r difrod a wnaethpwyd i'r to yn ystod y stormydd diweddar. Diolch yn fawr i bawb!

**Apêl**
Mae cronfa'r Apêl yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw a.y.y.b. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogir pob un yn fawr.

Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apel, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar Eglwys Crist, Glanogwen.

**Ffair Nadolig**
Diolch i bawb a gefnogodd y Ffair Nadolig ar Ragfyr 13 mewn unrhyw fodd – trwy drefnu, rhedeg, cyfrannu a mynychu ar y bore, braf iawn o weld yr eglwys yn fyrlymus a phawb yn hwyliog. Diolch i Christine ar yr organ a'r criw Boncathod am ychwanegu at yr awyrgylch Nadoligaidd – gwerthfawrogwyd yn fawr.

Braf yw cofnodi i'r achlysur godi bron i £600, fydd o help mawr tuag at drwsio'r difrod a wnaethpwyd i'r to yn ystod y stormydd diweddar. Diolch yn fawr i bawb!

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru ar ôl colli anwyliaid.

Cofiwch roi gwybodaeth i'r Ficer neu Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Gwasanaethau dros y gaeaf!**
Mae trefn y gwasanaethau o fis Medi tan y Pasg fel a ganlyn:

**Gwasanaethau Eglwys Crist:**
**Suliau 1af a'r 2il yn y mis**: 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am - Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.


**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ein ficer ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, neu'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

**Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda** i bawb o'n haelodau ble bynnag y bont, gan weddio am flwyddyn 2026 fwy heddychlon yn y byd cyfan.

## Yr Eglwys Unedig

**Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch!**

**Oedfaon**
Diolch yn fawr i'r rhai a ddaeth i arwain ein gwasanaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf yma – 'rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cyfraniadau.



**Y Gymdeithas**
Croesawodd Ceri y rhai oedd yn bresennol i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd cynrychiolaeth o Gapel Bethlehem, Talybont, gydag Angharad, Barbara a Neville yn cyflwyno dwy garol a dau ddarlleniad. Darllenodd Neville ddetholiad o waith y diweddar Barchedig Huw John Hughes yn cymharu'r Nadolig cyntaf â'r Nadolig yr ydym yn ei ddathlu heddiw. Joe oedd yn cynrychioli Capel Carmel, a chafwyd darlleniadau amrywiol ganddo. Cafwyd parti bach o Jerusalem yn canu carol, ynghyd â darlleniadau gan Ceri a Minnie. Canwyd nifer o garolau, a mwynhawyd paned, mins pei a hufen i gloi'r noson. Diolch yn fawr i Ceri a Minnie am drefnu. Cafwyd gair gan y Gweinidog, a diolchodd Neville i bawb. Cynhelir ein cyfarfod nesaf nos Iau, Ionawr 8fed, pan fydd Andre Lomozik yn dod atom i'n difyrru.

**Marwolaeth**
Trist iawn yw gorfod cofnodi ymadawiad Mrs Elinor Holland, un o'n aelodau ffyddlonaf, hyd nes i lesgedd ei llyffetheirio. Bydd adroddiad llawnach yn rhifyn nesaf y Llais.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Er gwaethaf tywydd hynod o anffafriol, daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r cyfarfod hwn, sydd erbyn hyn wedi hen ddod yn rhan o draddodiad y Dyffryn. Pleser oedd cael cwmni Côr y Penrhyn, ynghyd â'u harweinydd, Owain Arwel Davies, a'r cyfeilydd Frances Davies. Cafwyd nifer o ddarlleniadau ac unawdau, a rhaid canmol yn arbennig yn y fan hyn gyfraniadau pedwar o bobl ifainc hynod o ddawnus, sef Gruff Llwyd Beech, Gwenno Llwyd Beech, Steffan Llewelyn ac Esther Parry. 'Roedd bri ar y canu cynulleidfaol hefyd.

Hoffai Menai, trefnydd y noson, ddiolch i bob un o'r canlynol am eu cyflwyniadau ar y noson:
Angharad Llwyd Beech, Gwenno Llwyd Beech, Gruff Llwyd Beech, Frances Davies, Gwenda Davies, Meleri Davies, Owain Arwel Davies, Y Parchedig Nerys Griffiths, Joe Hughes, Neville Hughes, Steffan Llewelyn, Dilwyn Owen, Esther Parry, Hywel Parry, Côr Meibion y Penrhyn, Y Parchedig Sara Roberts, Beti Rhys.

Diolch yn fawr hefyd i Heulwen am addurno'r Capel yn arbennig o hyfryd. Gwnaethpwyd elw o £350.00 tuag at elusen i'w ddynodi maes o law.

**Cyhoeddiadau'r Sul**:
Ionawr 4: Gweinidog
Ionawr 11: Gwasanaeth Plygain (6)
Ionawr 18: Y Parchedig Olaf Davies (5)
Ionawr 25: Gweinidog

Chwefror 1: Mr. Donald Pritchard (5)
Chwefror 8: Undebol yn Llanrug (10)
Chwefror 15: Gweinidog
Chwefror 22: Y Parchedig Iwan Ll. Jones (5)

Gwawriodd blwyddyn newydd eto,
O'th drugaredd, Arglwydd cu;
Llaw dy gariad heb ddiffygio
Hyd yn hyn a'n dygodd ni.
Boed grasusau pêr newyddion
Gyda'r flwyddyn newydd hon
Yn blaguro yn ein calon
Nes dwyn nefoedd bur i'n bron.

*(G. Penar Griffiths)*





# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygái

**Blwyddyn Newydd Dda!**
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nyffryn Ogwen. Hedd, hapusrwydd ac iechyd da i chi a'ch teuluoedd.

**Dathlu'r Nadolig**
Pleser oedd croesawu dros 100 o addolwyr i ymuno gyda ni i ddathlu y Nadolig mewn gwasanaeth Naw Llith a Carol. Roedd yr eglwys yn edrych yn hyfryd yng ngolau cannoedd o ganhwyllau. Trefnwyd gwin poeth a lluniaeth ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n paratoi'r eglwys ac i'r unigolion a gyfrannodd mor hael i'r bwyd wedyn.

Ar gyfer Noswyl y Nadolig arweinwyd y gwasanaeth gan y Canon Alex Mayes. Yr organydd i'r ddau wasanaeth oedd Owain Morgan o Fethesda.


Diolch iddo am ei chwarae medrus. Diolch hefyd i bawb o'r Dyffryn sydd wedi cyfrannu mor hael at ein Apêl Nadolig 2025.

**Raffl Santes Dwynwen Ionawr 25ain**
Cofiwch brynu tocynnau raffl i ennill potel "champagne" ar gyfer diwrnod Santes Dwynwen! Mae'r elw at Gronfa Atgyweirio St Tegai sydd eleni yn canolbwyntio ar drwsio waliau'r Clochdŷ. Bydd y tocyn buddugol yn cael ei dynnu yn yr eglwys yn ystod y gwasanaeth, Ionawr 25ain sydd yn digwydd bod yn Ŵyl Santes Dwynwen.

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**
*Ar y Sul*
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

*Ar Ddydd Mercher*
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

*Manylion Cyswllt*
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 0124836152 neu gareth.lloyd@cinw.org.uk ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts, SaraRoberts@cinw.org.uk.




Clochdy St Tegai yng ngolau'r lleuad lawn "arbennig". Tynnwyd y llun ar noson ymarfer canu clychau gan Kyle, un o'n clochyddion.

# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## Arweinydd Diogel

Ers degawdau, bu hwn a'i ragflaenwyr yn fy helpu i fynd i'r lle cywir bob Sul. Ond nos Sul olaf 2025, wedi deng mlynedd o wasanaeth ffyddlon, daeth i ddiwedd ei oes heb olynydd i'w ddilyn. Bu raid i mi, felly, forol am ffordd arall o drefnu pethau ar gyfer y flwyddyn newydd. Ond o wybod y byddai pethau'n newid, rwyf eisoes yn gyfarwydd â phatrwm newydd. Hyd yma, o leiaf, mae popeth yn daclus ac mewn trefn.

Ond mi welaf eisiau'r hen gyfaill: y *Suliadur* a fu ers degawdau'n nodi lle a phryd yr oedd f'oedfaon bob Sul. Dim ond gweinidogion a phregethwyr a threfnwyr Suliau'r capeli sydd o bosib yn gyfarwydd â'r *Suliadur*, neu'r 'Llyfr Bach'. Yn llythrennol, llyfr bach pum modfedd wrth dair. Dyddiadur o fath; ond mai'r Suliau yn unig a restrwyd ynddo, a gwerth tri mis o'r rheiny ar bob tudalen. Ac am ei fod yn para o leiaf ddeng mlynedd roedd yn hynod o hwylus a defnyddiol. Ond bellach, darfu amdano. O bosib nad oes ddigon o alw i gyfiawnhau'r gost o'i gyhoeddi. Yn amlwg, mae llai o gapeli a gweinidogion nag a fu, a mwy a mwy o'r rhai sy'n weddill yn defnyddio'r cyfrifiadur i roi trefn ar eu dyddiaduron.

Ers degawdau, bu'r *Suliadur* yn arweinydd diogel ac yn gymorth mawr i sicrhau nad oeddwn yn gwneud cawl o bethau trwy fynd i'r capel anghywir nac yn addo mynd i ddau le'r un pryd. Mi fydd yn chwith hebddo. Ond wrth fentro i flwyddyn newydd arall, gwn fod gennyf arweinydd rheitiach o lawer a fu, ac a fydd eto'n fy nghyfarwyddo ac yn gwarchod fy mynd a dod. Eleni eto, gwn y medraf ddibynnu ar Dduw i'm harwain a'm diogelu a'm nerthu. Gwn y caf geisio'r arweiniad hwnnw o ddydd i ddydd. Duw ei hun a ŵyr fod arnaf ei angen. Gwn hefyd na wnaf fi hynny bob dydd, ac na fyddaf bob amser yn ymwybodol o'r arweiniad hwnnw. Ond mi fydd yr Arglwydd Dduw yn ei ras yn dal i arwain ac yn dal i drefnu fy llwybrau. Mi wn i hynny am mai dyna a wnaeth dros y blynyddoedd. Bu'n ffyddlon er gwaethaf f'anffyddlondeb. Bu'n agos ataf er i mi yn aml grwydro'n bell oddi wrtho. Bu'n gwarchod drosof pan nad oeddwn i'n ymwybodol ohono. A gwn iddo, yn ei drugaredd, wrando ar fy ngweddïau. Ond gwn iddo hefyd, yn fwy aml, ymateb i gri na roddwyd mynegiant iddi mewn unrhyw weddi.

Ar ddechrau blwyddyn, mor braf yw gwybod fod gennym Dduw sy'n llawn sylweddoli ein hangen am y cyfan sydd ganddo ar ein cyfer. Mae llawer ohonoch wedi profi ei arweiniad a'i ofal dros y flwyddyn ddiwethaf a'r blynyddoedd a'i rhagflaenodd. Mor braf yw gwybod y medrwch ddal i bwyso ar Dduw gydol y flwyddyn newydd. Ond mae'n bosib bod hyn oll yn ddieithr i eraill ohonoch, ond bod rhai ohonoch yn dyheu am ffydd o'r fath. Mentrwch ofyn i Dduw fod gyda chi, i'ch cyfeirio a'ch arwain, i warchod drosoch ac i'ch helpu a'ch nerthu. Mentrwch ymddiried yn yr arweinydd sy'n ymwybodol o'ch holl anghenion ac yn awyddus a pharod i'w diwallu'n llawn.

A mentraf finnau ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Blwyddyn Newydd Dda!**
Gobeithio y bydd 2026 yn dod â chyfleoedd newydd, gobaith a llawenydd i chi. Dymuniadau am flwyddyn o heddwch, iechyd a hapusrwydd i bawb yn agos ac ymhell.

**Brysiwch wella**
Mae'n dda clywed bod Vera Hughes, Ciltrefnus, adref o'r ysbyty erbyn hyn ac yn derbyn gofal arbennig gan Keith a'r teulu. Gobeithio eich bod yn cryfhau.

Cafodd Russell Jones, Ffordd Gerlan, gyfnod byr yn yr ysbyty'n ddiweddar. Da ni'n falch o weld dy fod adra erbyn hyn.

**Blwyddyn Brysur i Caban Gerlan**
Mae 2025 wedi bod yn un prysur a llewyrchus i Caban Gerlan. Derbyniodd y pwyllgor gadarnhad eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am sawl grant ac mae 'na ddigwyddiadau newydd wedi cychwyn yn y neuadd.

**Mis yma yn Y Caban**:
- Bydd ffenestri, drws ffrynt a drysau tân newydd yn cael eu gosod gan Ffenestri Cymru diolch i Gronfa Ffyniant Gogledd Cymru.
- Gweithdy gwnïo yn cael ei drefnu gan Caffi Trwsio Dydd Sul y 18fed o Ionawr.
- Caffi Trwsio arferol, dydd Sul, Ionawr 25

**Caffi trwsio Caban Gerlan**
Mis Mawrth llynedd, fe dderbyniodd Caban Gerlan grant i gychwyn Caffi Trwsio. Cynhaliwyd Caffi Trwsio'n yn y neuadd ar y dydd Sul olaf o bob mis rhwng 11 ac 1. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r Caffi'n 2025, i bob un sydd wedi gwirfoddoli, i bawb ddaeth ag eitem i'w drwsio neu galwodd mewn am banad ac i Partneriaeth Ogwen am eu cefnogaeth frwd pob amser.
- Cafodd 8 Caffi trwsio eu cynnal yn 2025
- Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu dros 150 o oriau i'r digwyddiadau er mwyn sicrhau fod y Caffi'n llwyddiant.
- Daeth 41 eitem i'w trwsio a llwyddwyd i drwsio 26 o'r eitemau yma.
- Sips angen eu trwsio oedd yr eitem fwyaf poblogaidd oedd angen sylw.
- Yr eitem fwyaf anghyffredin i'w drwsio oedd hen Siôn Corn oedd o werth sentimental mawr i deulu.

Bydd y Caffi Trwsio nesaf yn cael ei gynnal **Dydd Sul, Ionawr 25ain rhwng 11 ac 1.** Mae'n fora difyr efo paned am ddim a chroeso cynnes – dewch draw i ddeud helo!

**Gweithdy Gwnïo**
**Dydd Sul, Ionawr 18fed rheng 11am a 2pm**, bydd Caffi trwsio'n cynnal eu hail weithdy gwnïo.

Gan fod y gweithdy diwedd Hydref mor llwyddiannus, penderfynwyd cynnal un arall eto dechrau Ionawr. O dan arweiniad Ruth a Kêt, bydd cyfle i chi greu bag cotwm â sip wedi ei leinio. Darperir yr holl ddeunyddiau. Dewch a'ch peiriant gwnïo eich hun neu rhowch wybod i ni os yda chi angen benthyg un.

Mae'r gweithdy am ddim ond oherwydd nifer cyfyngedig o lefydd, mae'n hanfodol eich bod yn archebu lle drwy e bostio gofod@ogwen.org

# YSGOL LLANDYGAI

Ddechrau mis Rhagfyr, cawsom sgyrsiau difyr gan ddau ymwelydd yn sôn am fynydda fel rhan o'n gwaith thema. Cafodd disgyblion Dosbarth Gwawr sypreis mawr wrth ddarganfod mai dringwr yn y lluniau oedd Mr Williams, ein Gofalwr. Yn ei amser hamdden mae Mr Williams wrth ei fodd yn mynydda a daeth at y dosbarth i ddangos ei ddillad a'i offer mynydda sy'n gofalu ei fod yn ddiogel ar y mynydd. Mwynhaodd y plant weld yr holl offer y mae'n ei gario sy'n gwneud ei fag yn drwm iawn. Diolch Mr Williams am eich sgwrs a'ch lluniau o'ch teithiau ar y mynyddoedd lleol.



Cafwyd 2 Wasanaeth arbennig iawn yn Eglwys Sant Tygai ble bu'r dosbarthiadau yn cymryd rhan o flaen teuluoedd a ffrindiau yr ysgol. Cafwyd canu carolau mewn gwahanol ieithoedd gan Ddosbarth Tirion, stori'r Goeden Nadolig Fach gan ddosbarth Awel ac yna stori'r Nadolig ar gân gan Ddosbarth Gwawr. Diweddwyd y Gwasanaeth trwy gyd-ganu 'Carol y Goeden' gan Meilir Wyn a'r ffefryn 'Nadolig Llawen i chi gyd'.



Daeth Mr Chris Lloyd o Dîm Achub Mynydd Dyffyn Ogwen draw at ddosbarthiadau Awel a Tirion i drafod gwaith y tîm gwirfoddol pwysig yma. Soniodd am bwysigrwydd o gael yr offer cywir, y wybodaeth gywir am y tywydd ac am y wybodaeth gywir a'r sgiliau cywir am ddringo'r mynyddoedd lleol. Diolch Mr Lloyd am y cyflwyniad trwy luniau, eich negeseuon pwysig ac am eich gwaith chi a'ch cyd-wirfoddolwyr gyda'r tîm yma.



Bu Teo a Brian o Ddosbarth Tirion yn cynrycholi'r ysgol mewn digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor i lansio Coleg Treftadaeth Bangor. Mae'r prosiect yma yn gwahodd disgyblion ysgolion Bangor i ddysgu am dreftadaeth dinas Bangor gan ddysgu am storiau lleol, lleoedd pwysig a phobl Bangor er mwyn cryfhau eu perthynas â dinas Bangor.

Wrth i ni ddod at ddiwedd 2025, mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn dathlu'r Nadolig mewn gwahanol ffyrdd. Cafwyd diwrnod lliwgar iawn yn yr ysgol wrth i ni gynnal Diwrnod Siwmperi Nadolig a chael cinio Nadolig arbennig unwaith eto eleni gan Anti Carol, Anti Nia ac Anti Charlene. Mae'r dosbarthiadau hefyd wedi bod yn dysgu am draddodiadau'r Nadolig - Coron Adfent a Chritingle.

Yn ystod wythnos olaf y tymor, mwynhaodd y plant ieuengaf yr ymweliad blynyddol i Pili Palas i gyfarfod Sion Corn tra bu'r plant hŷn yn Sinema Pontio yn gwylio'r ffilm 'Zootropolis 2'.

Pob dymuniad da ar gyfer 2026 i'r holl ddarllenwyr gan ddisgyblion a staff Ysgol Llandygai.

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Cyfarchion**

Dymuna Iona, sydd yng nghartref gofal Gwynfa, Caernarfon, Flwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref, sydd mor agos at ei chalon.

**Merched y Wawr**

Yn anffodus, oherwydd y tywydd garw eithriadol ar Ragfyr 9, bu'n rhaid canslo ein cyfarfod. Nerys Evans o Rostryfan, merch-yng-nghyfraith y diweddar Gruffudd Tomos a Rhiannon, oedd yn hwylio dod at yr aelodau i drafod a gwneud ychydig o fwydydd Nadoligaidd. Ond doedd dim amdani ond swatio, a'r gobaith yw y bydd Nerys yn rhoi cynnig arall arni tua diwedd y flwyddyn hon. Dim ond gobeithio y bydd y tywydd yn gleniach erbyn hynny!

Mwynhaodd yr aelodau ginio yng nghwmni ei gilydd ddechrau'r mis yma a bydd y cyfarfod nesaf ar brynhawn Mawrth, Chwefror 10 am 1.30 o'r gloch dan ofal Mari a Jen. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Cyflwynydd ar Radio Cymru**

Llongyfarchiadau cynnes i Manon Steffan Ros, Bryn Llys gynt, sydd ar fin camu i mewn i sedd Ffion Dafis fel cyflwynydd y rhaglen ar y celfyddydau ar brynhawniau Sul ar Radio Cymru. Yn dilyn penodiad Ffion yn Gyfarwyddwr Artistig cwmni Theatr Bara Caws bydd Manon yn gafael yn yr awenau ar brynhawn Sul, Ionawr 25. Bydd modd gwrando ar y rhaglen hefyd ar BBC Sounds. Dywedodd Golygydd BBC Radio , Dafydd Meredydd, fod penodi Manon yn 'gam cyffrous




i'r orsaf': "Dwi'n falch iawn o allu croesawu Manon i sedd y cyflwynydd – awdur a cherddor uchel ei pharch a fydd yn dod â'i llais unigryw a'i stamp ei hun i'r rhaglen," meddai.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu'r diweddar Dorino Miserotti, Valdor, a fu farw ddiwedd Tachwedd ychydig fisoedd yn unig ar ôl iddo golli ei wraig Valerie. Roedd yn 94 oed ac wedi byw yn y pentref ers dros hanner can mlynedd. Cyn ymddeol bu'n rhedeg caffi ar Stryd Llyn, Caernarfon gyda'i frawd a byddai ef a Valerie yn teithio i'r Eidal am ryw dri mis bob haf i ymweld â theulu draw yn y fan honno.

## Curo'r Corwynt!

I'r rhai fu'n gwylio'r snwcer dros y Nadolig fe wyddoch chi fod Jimmy 'Corwynt' White wedi cyrraedd y rownd derfynol. Ond tybed faint ohonoch chi sy'n gwybod fod Dewi Griffith, Castell, wedi cael cyfle i chwarae yn ei erbyn yn ddiweddar mewn noson i godi arian at achosion lleol yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon? Gwell byth, Dewi oedd yr unig un i guro'r hen Jimmy White ar y noson. Llongyfarchiadau fil iti Dewi! Tybed oes 'na yrfa arall yn yr arfaeth?...

Mae Iwan, mab Hugh Castell, hefyd wedi cael llwyddiant yn ddiweddar mewn treialon cŵn defaid gyda'i ast fach Castell Floss. Daeth yn ail yn y rownd derfynol i gŵn iau yn nhreialon Gogledd Cymru. Gwych, Iwan!



DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

SPAR
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos



## Clwb Rhiwen

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd brynhawn Mercher, Rhagfyr 17, yn y Four Crosses ym Mhorthaethwy am eu cinio Nadolig a mwynhaodd pawb y wledd. Yn ystod y prynhawn cafwyd 'secret Santa' lle roedd pob aelod wedi dod ag anrheg i'w rannu a dosbarthwyd yr anrhegion gan Gareth. Arddangoswyd coeden Nadolig hardd wedi ei haddurno gan aelodau'r Clwb yn Eglwys St. Cedol ychydig cyn y Nadolig. Roedd hi'n hardd iawn ac roedd pob un o'r addurniadau wedi eu cyflwyno gan yr aelodau gyda gwybodaeth am y Clwb.

Yn ein cyfarfod ar Chwefror 18 ein gwraig gwadd fydd Ruth o 'Asynnod Eryri'. Edrychwn ymlaen at wrando ar ei sgwrs ynghylch yr elusen yma a'i gwaith gyda'r asynnod.

Mae croeso mawr i unrhyw un dros 50 i'n cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn y Neuadd ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 y.p.

# Pentir

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Cymanfa Garolau**

Nos Sul y 30 o Dachwedd yn Eglwys St. Padarn, Llanberis cynhalwyd Cymanfa Garolau gyda Leusa Mair- Soprano a Chôr Glanaethwy a Robert Evans yn cyfeilio, Roedd y noson dan arweiniad Cefin Roberts a Sharon Williams wrth yr organ. Braf oedd gweld cynifer wedi troi allan i fwynhau noson wefreiddiol dros ben. Roedd elw'r noson yn mynd tua gronfa atgyweirio Eglwys St, Cedol.

Hoffwn ddiolch ar ran Eglwys St. Cedol i aelodau St. Padarn am y croeso a'r fraint o gael rhannu yr adeilad hardd yma gyda hwy, ond yn fwy na dim hoffwn ddiolch i Cefin a Rhian am drefnu'r noson, yr artistiaid a gymrodd ran ac i'r gynilleidfa am ei cefnogaeth.

**Gŵyl Coed Nadolig**

Ar benwythnos y 13 ar 14 Rhagfyr cynhaliwyd Gwyl Coed Nadolig yn yr Eglwys. Roedd 16 o coed wedi cael ei harddangos gan wahanol unigolion, clwbiau a busnesau. Roedd y coed i gyd wedi eu harddurno mewn gwahanol ddulliau a oedd yn gysylltiedig ar clwbiau neu fusnesau. Roeddent i gyd yn hardd dros ben yn goleuo gofod yr Eglwys.

Diolch yn fawr i'r rhai a gymrodd ati â'r gwaith i arddangos coeden, ond mae'n diolch yn enfawr i'r bobol a fu draw I weld yr arddangosfa. D iolch i chi gyd am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen i Nadolig 2026.





**Ysgol Rhiwlas**

Braf oedd cael croesawu Ysgol Gynradd Rhiwlas i'r eglwys ar y 16 o Rhagfyr ar gyfer ei Gwasanaeth Carolau. Cawsom noson wych gyda'r plant a'r athrawon yn ein diddanu gyda carolau a darlleniadau ynglwm ar Nadolig. Diolch o galon am noson fendigedig.

**Clwb Crefftau**

Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod bob Prynhawn Gwener o'r mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**

Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, bydd y Te Bach nesaf ar y 4 Chwerfor. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Hamper Misol**

Rydym cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd Hamper Mis Rhagfyr oedd Mair yn roddedig gan Ann, David a Dawn.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estenedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Gwasanaethau'r Sul**

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb ac mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch a'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.


MODURON PANDY Cyf.

UNIPART CAR CARE CENTRE

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

CALENDR LLAIS OGWAN 2026
Lluniau ardderchog.
Dim ond £5.00.
Mynnwch eich copi




# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

Er bod y Nadolig bellach wedi hen fynd a'ch coed a'ch addurniadau i gyd i lawr mae hi dal yn bwysig adrodd ar ambell i beth a ddigwyddodd yn yr ysgolion cyn diwedd Rhagfyr.



**Trip Pili Palas**

Bu plant blynyddoedd 1, 2, 3 a 4 yn lwcus dros ben cyn y Nadolig gan fynd a'r ymweliad arbennig i Pili Palas. Nid yn unig cafodd y plant weld yr holl anifeiliaid a chael hwyl yn y parc chwarae ond yn fwy arbennig fyth cafodd bob un plentyn y cyfle i weld a chael sgwrs a derbyn anrheg gan Sion Corn!



**Plas Ogwen**

Da iawn i grŵp Lles ysgol Pen y bryn am roi hamperi at ei gilydd ar gyfer trigolion Plas Ogwen. Mi rydan ni'n siŵr o alw acw eto'n fuan yn y flwyddyn newydd; mae criw Abercaseg wedi bod wrth eu bodd yn mynd acw i ganu dros y blynyddoedd ac yn bwriadu parhau gyda'r traddodiad.



**Ymweliad arbennig**

Gan fod plant blynyddoedd 1, 2, 3 a 4 wedi bod yn lwcus ac wedi bod i weld Sion Corn yn Pili Palas roedd y dyn ei hun yn teimlo ei fod o ond yn deg ei fod o'n hymweld â gweddill plant yr ysgol, felly, ar ddiwrnod Siwmperi Nadolig a phawb yn yr ysgol wedi gwisgo'n grand cafwyd sypreis anhygoel pan gyrhaeddodd Sion Corn yr ysgol gydag anrheg fach i bawb! Bu'r plant yn dawnsio a canu rhai o'r caneuon roeddent wedi eu dysgu ar gyfer y gwasanaeth carolau ac yn wir i chi roedd hi'n fore i'r brenin! Diolch yn fawr Sion Corn!



**Cinio Nadolig**

Hoffai holl blant a staff y ddwy ysgol ddiolch unwaith eto eleni i Anti Marian, Anti Nerys, Anti Donna, Anti Wendy ac Anti Stephanie am ginio 'Dolig bendigedig. Dyma oedd gan rai o blant Abercaseg i ddweud am y cinio, Efa - "Mmmm y tatws rhost oedd fy hoff beth i." Enlli - "Stwffin ydy fy hoff fwyd ac mae Anti Marian yn gwneud stwffin blasus!"

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Ionawr 27
Chwefror 10 a 24
am 6.45yh.
Croeso i bawb

FESTRI CARMEL LLANLLECHID

## Te Bach

Dydd Llun
16 Chwefror
2.30 – 4.00yp
Croeso cynnes i bawb

## Clwb Coffi Talybont

FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
Chwefror 9 a 23
Croeso cynnes i bawb

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda**

**Nos Lun, Chwefror 9fed, am 7.00 o'r gloch**

**Dr. Nia Jones – *'Owain Glyndwr a'r Cylch'***

**Wyneb yn wyneb: Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo esme@ogwen.org**

**Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf os gwelwch yn dda.**

FFI AM Y CWRS
Oedolion £10.00.
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol – £2.00


Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212,
neu gydag arian parod ar y noson

## GIGS NEUADD OGWEN

Vri ac Angharad Jenkins 29.01.26
Afel Bocoum 30.01.26

### Plaid Cymru Dyffryn Ogwen: VRï + Angharad Jenkins

Nos Iau 29.01.2026




**Noson arbennig o gerddoriaeth Gymreig o'r radd flaenaf yng nghalon Dyffryn Ogwen.** Bydd elw'r noson yn cefnogi ymgyrch Plaid Cymru Bangor, Conwy a Môn.

**VRï** yw tri cherddor o galon capeli Cymru sy'n rhoi bywyd newydd i gerddoriaeth draddodiadol y genedl. Gyda gwaith ffidl gwefreiddiol, cytgordau cyfoethog, a sain sy'n cyfuno cerddoriaeth siambr ag egni sesiwn dafarn, mae VRï wedi creu "dirwedd sain unigryw a rhyfeddol" (Songlines ★★★★★). Mae eu caneuon yn cysylltu'r gorffennol â'r presennol – straeon o frwydr, llawenydd ac ymdeimlad o berthyn sy'n taro deuddeg hyd heddiw.

**Angharad Jenkins** yw cantores, cyfansoddwraig a ffidlwraig ddwyieithog o Abertawe, ac un o brif leisiau cerddoriaeth werin Cymru. Gyda'i chydweithiwr ers blynyddoedd **Patrick Rimes**, mae hi yn ail-lunio'r traddodiad Cymreig drwy dehongliadau arloesol. Mae eu prosiect diweddaraf, *amrwd*, yn dal egni crai a daearol dwy ffidil mewn deialog fyw, gan gyfuno cytgordau cyfoethog, caneuon bythol fel *Myfanwy* ac *Calon Lân*, ac cyfansoddiadau newydd wedi'u hysbrydoli gan dreftadaeth gerddorol Cymru.

Tocynnau safonol yn £15

Tocynnau cyfraniad ychwanegol yn £20

*Digwyddiad sefyll fydd hwn.*

## Calendr Llais Ogwan 2026

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2026 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol.

Cysylltwch gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk. Bydd y Calendr ar werth am £5 yn y siopau hyn:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Tesco, Bethesda
- Post Rachub
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol. Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 / post@llaisogwan.com

# YSGOL BODFEURIG



**Ffair Nadolig**
Cafwyd ffair Nadolig llwyddiannus eto acw eleni gyda llawer o arian wedi ei godi tuag at weithgareddau yr ysgol. Diolch i ffrindiau yr ysgol am helpu gyda'r stondinau a diolch i Sion Corn am ddod yr holl ffordd i'n gweld ni!

Roedd mis Rhagfyr yn brysur dros ben yn Ysgol Bodfeurig gyda pawb yn mwynhau llawer o weithgareddau, dyma flas o'r hyn fu'n digwydd!

**Panto**
Bu plant blwyddyn 2 i 6 am dro yr holl ffordd i Rhyl i wylio panto Y Rhiain Gwsg. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr ac wedi mwynhau hufen ia hanner amser.

**Cinio Nadolig**
Diolch yn fawr i Anti Anwen ac Anti Dana am ginio Nadolig blasus unwaith eto eleni.

**Sioe Nadolig**
Mae plant Bodfeurig yn serennu pob blwyddyn yn y sioe Nadolig ac toedd eleni ddim gwahanol. Eleni roedd y stori yn dilyn athrawon yr ysgol wrth iddynt geisio dewis seren newydd ar gyfer y sioe gyda pawb yn penderfynu yn y diwedd mai stori'r geni oedd y dewis gorau. Da iawn chi blantos da chi gyd yn ser.

**Pili Palas**
Bu plant meithrin i flwyddyn 1 ar ymweliad a Pili Palas. Roedd pawb wrth eu boddau yn mynd i weld yr anifeiliaid a chwarae ond coron ar y cyfan oedd gweld neb llai na Sion Corn ei hun! Cafodd pawb gyfle i sgwrsio gyda fo cyn cael anrheg bach i ddod adref gyda nhw.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i un o blant dosbarth Ogwen ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth dylunio cerdyn Nadolig i Tim Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Mae'r cardyn wedi bod ar werth ar eu gwefan. Braf oedd cael cefnogi'r achos gwych yma wrth gystadlu.



**Ymweliad MoMo Signs**
Cafodd pob plentyn yn yr ysgol weithdy gwych gyda Tomos o MoMo Signs. Daeth Tomos acw i siarad am ei waith yn creu arwyddion ac sut mae'n defnyddio offer a deunyddiau diddorol fel aur! Ar ol dysgu am ei waith cawsom gyfle i greu ein arwyddion ein hun yn annog eraill i yrru yn ofalus heibio'r ysgol. Diolch i Hannah, un o rieni'r ysgol am drefnu'r gweithdy.




ELUSEN OGWEN

Os... ydych chi'n aelod o grŵp yn Nhal-y-Bont, Llandygái, Bethesda, Tregarth, Rhiwlas, Mynydd Llandygái neu'r cyffiniau

ac hoffech chi gael grant o hyd at £3,000 ar gyfer prosiect

Yna... sganiwch y cod QR i fynd i'n gwefan i weld
- a yw eich prosiect yn gymwys
- a sut i gyflwyno cais

www.elusenogwen.cymru / elusenogwen@gmail.com

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

## 'Coel', 'ar lab' ac 'ar lechan'

Daeth gwybodaeth ddiddorol eto oddi wrth Nel Williams, Carneddi. Soniodd am y neges ar ddarn o bapur a oedd yn ffenestr Siop Lôn Pab yn Stryd Fawr Bethesda, y siop ddillad a oedd yn cael ei chadw gan Mr Ifor Jones. Dyma'r geiriau:

Peidiwch gofyn coel
Peth cas yw cael eich gwrthod.

Ystyr 'coel' ydy 'credyd', hynny ydy, caniatáu i brynwr ohirio talu, gyda pherchennog y busnes yn ymddiried y bydd yn talu rywbryd yn y dyfodol. Fel y gwelwch chi, chaech chi mor hynny yn Siop Lôn Pab. Byddai hefyd yn arddangos poster gyda'r geiriau 'Un pris ac arian parod' arno. Eto, roedd 'coel' i'w gael mewn nifer o siopau a thai-tafarnau. Mae sôn bod Jacob Parry, a oedd yn cadw siop ar Allt Penybryn (mae 'entri' Jacob yn dal yno) wedi mynd yn dlawd ei hun o achos ei fod o'n rhoi coel i deuluoedd streicwyr yn ystod y Streic Fawr (1900-03) a heb gael ei dalu am y nwyddau gan fod tlodi mawr yn yr ardal hyd yn oed ar ôl y streic.

Mae'r gair 'coel' (fel 'credit' yn Saesneg) yn golygu 'coelio' rhywun, hynny ydy credu'r cwsmer y byddai'n talu pan fedrai – yn enwedig ar ôl Dydd Sadwrn Setlo, gan mai bob mis y byddai chwarelwyr yn cael eu cyflog.

Ffordd arall o ddweud eich bod yn cael 'coel' oedd 'ar lab'. Roedd yr hanesydd lleol Ernest Roberts yn meddwl bod y gair yn dŵad o'r Saesneg 'slab', gan fod ymadrodd arall am yr un peth, sef 'ar lechan' efo tafarnwyr yn defnyddio llechen ar gyfer cofnodi dyledion cwsmeriaid.

**daffod**. 'Datod' ydy hwn, fel datod careiau esgidiau – "Daffod y cria iti gael tynnu'r sgidia gwlyb 'na."
**mwthwl**. Dyma ddwedwn ni am 'morthwyl', ac mae 'na wahanol fathau o forthwylion, fel mwthwl lwmp, gordd a rhys (gordd efo coes hir a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y chwarel.)
**snîch**. Gair i ddisgrifio rhywun annymunol ydy hwn – "Hen snîch o ddyn ydy o."
**holi a stilio**. Ceisio cael gwybodaeth am rywun neu rywbeth ydy'r ymadrodd hwn. Mae 'stilio' yn golygu holi'r fanwl iawn.
**gwerthu lledod**. Ffalsio ydy hwn. Canmol rhywun er mwyn plesio neu i gael mantais – "Un am werthu lledod ydy o."
**un garw amdani**. Dwedir hyn am rywun cybyddlyd, sef un 'garw am y geiniog' – un na fedrwch chi cael dim 'o'i groen' o.
**hen beil**. Dyma ddwedwn ni am rywun sy'n llaw chwith – "Hen beil ydy o. Clarcio fydd o" oedd y dywedaid am rywun llaw chwith, hynny ydy, y bydda' fo'n gwneud llawer iawn o sgwennu yn ei waith.
**sodro**. Rhoi rhywun 'yn ei le' - yn gorfforol neu mewn dadl – "Mi 'nes i 'i sodro fo."
**mymryn**. Ychydig bach o rywbeth – "Dim ond mymryn o halan fydda' i'n ei roi ar 'y mwyd."
**cofn**. Dyma dwedwn ni'n aml am 'rhag ofn' – "Ty'd i lawr o ben y wal 'na cofn 'ti syrthio."
**dim rhithyn**. Dim o'r mymryn lleiaf ydy ystyr hwn – "Mae hi'n dawel heddiw – does 'na ddim rhithyn o awel."
**stomp**. Llanast ydy hwn – "Mae hi wedi gneud stomp o betha yn ei phapur arholiad."

Unryw air neu ymadrodd, cofiwch gysylltu Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


Ffrindia' Newydd

**Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli ystyrlon?**

Oes gennych chi awr neu ddwy i'w sbario bob wythnos i wneud gwir wahaniaeth yn eich cymuned?

Mae prosiect cyfeillio *Ffrindia' Newydd* eisiau gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi unigolion dros 50 oed sydd angen cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:
beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
01286 672 626 | www.mantellgwynedd.com

Neu sganiwch y cod QR i gofrestru:



STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# YSGOL LLANLLECHID

### Cyfle Dysgu Arbennig i Flynyddoedd 1 a 2

Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 gyfle arbennig i ddysgu am waith hanfodol Tîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen yr wythnos hon. Daeth Mr Chris Lloyd, aelod profiadol o'r tîm, i'r ysgol i roi sgwrs addysgiadol am eu gwaith pwysig wrth achub pobl mewn sefyllfaoedd peryglus ar y mynyddoedd.

Yn ystod y sesiwn, eglurodd Mr Lloyd sut mae'r tîm yn ymateb i alwadau brys, pa offer hanfodol sy'n cael ei ddefnyddio, a phwysigrwydd diogelwch wrth fwynhau'r awyr agored. Roedd y disgyblion yn awyddus i ofyn cwestiynau ac yn dangos diddordeb mawr yn y gwaith arwrol sy'n cael ei wneud gan y tîm.

Diolch yn fawr i Mr Lloyd am rannu ei wybodaeth a'i brofiad gyda'n disgyblion. Roedd yn gyfle gwerthfawr i ddysgu am gyfrifoldeb, cydweithio, a gofalu am eraill.



**Sioe Nadolig Cyw**
Ar ddiwedd tymor prysur iawn aeth y Dosbarth Derbyn I'r Galeri, Caernarfon I wylio sioe Nadolig Cyw. Cawsom sioe arbennig yng nghwmni y ddau gorrach direudus, Tref y DJ, Ben Dant ac wrth gwrs Sion Corn!

### Sioeau Nadolig

Cafwyd perfformiad arbennig gan ddisgyblion Adran y Cyfnod Sylfaen, sef Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Enw'r sioe eleni oedd "Dadl y Nadolig", a bu'r plant yn trafod beth mae'r Nadolig yn ei olygu i wahanol unigolion.

Roedd y disgyblion wedi dysgu llu o ganeuon hyfryd ac yn perfformio'n wych yn eu gwisgoedd lliwgar. Roedd y sioe yn llawn egni, creadigrwydd ac ysbryd y Nadolig. Da iawn chi, blantos!

### Sioe Nadolig yr Adran Iau

Cafwyd gwledd wirioneddol yn sioe Nadolig yr Adran Iau eleni. Perfformiwyd fersiwn arbennig o'r stori "Y Llew Frenin", gan ddangos talentau a chreadigrwydd ein disgyblion. Roedd y sioe yn llawn egni, perfformiadau bywiog a gwisgoedd trawiadol, gan greu awyrgylch hudolus i bawb a ddaeth i'w gweld.

Yn ystod yr wythnos, llwyddodd y plant i berfformio tair sioe i gynulleidfaoedd gwahanol; camp ryfeddol sy'n dangos eu hymroddiad a'u brwdfrydedd. Llongyfarchiadau i'r holl blant a'r staff am eu gwaith caled, rydych wedi gwneud i'r ysgol deimlo'n falch iawn!

### Taith i Weld "Y Brenin March"

Yn ddiweddar, aeth dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i Ganolfan Pontio i wylio'r sioe "Y Brenin March". Roedd yn berfformiad digri a doniol iawn a bu'r plant a'r athrawon yn chwerthin o waelod eu boliau!  Braf iawn hefyd oedd gweld un o rieni'r ysgol yn chwarae rhan Bifan. Profiad arbennig i bawb.

### Diogelwch ar y wê

Yn ddiweddar, daeth PC Tamzin Williams i Ysgol Llanllechid i gynnal sesiynau addysgiadol i ddisgyblion Blwyddyn 1 hyd at Flwyddyn 6 ar bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y wê. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn gyfrifol, sut i adnabod peryglon posibl, a beth i'w wneud os bydd problem yn codi.

Roedd yr holl ddisgyblion yn ymateb yn wych, gan ofyn ac ateb cwestiynau yn aeddfed iawn. Roedd yn gyfle gwerthfawr i atgyfnerthu'r neges bod diogelwch ar-lein yn hanfodol i bawb.

Diolch i PC Tamzin am ei chyfraniad a'i hymroddiad i addysgu ein disgyblion am y pwnc pwysig hwn.

### Pictiwrs Pontio

Pa ffordd well i ddathlu diwedd tymor llwyddiannus na thrwy daith arbennig i'r pictiwrs ym Mhontio? Cafodd disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 gyfle i fwynhau'r ffilm boblogaidd Zootropolis 2, gan fwynhau profiad arbennig ar y sgrin fawr gyda'u ffrindiau.

Roedd yr awyrgylch yn llawn cyffro a chwerthin, a mwynhaodd y disgyblion bob eiliad o'r daith. Fel uchafbwynt i'r profiad, cafodd pawb bopcorn haeddiannol iawn, a oedd yn ychwanegu at y teimlad o ddathlu a gwobrwyo gwaith caled y tymor.

Roedd ymddygiad y disgyblion yn rhagorol drwy gydol y daith, gan wneud y profiad yn un pleserus i bawb. Roedd y diwrnod yn ffordd berffaith o ddathlu llwyddiannau'r tymor ac o greu atgofion hapus i'w cofio.

### Trip Nadolig Dosbarth Meithrin i Bili Palas

Aeth y dosbarth Meithrin draw i Bili Palas i gael gweld rhywun arbennig iawn - y dyn ei hun, Sion Corn! Cawsom hwyl yn sgwrsio gydag o a phawb yn cael cyfle i'w atgoffa am yr anrhegion di-ri ar eu rhestrau. Yna, cafodd pawb addurno bisgedi yn y caffi a chael mynd o amgylch yr adeilad i weld yr holl anifeiliaid a chreaduriaid sydd yno. I orffen, cawsom gymaint o hwyl yn yr ardal chwarae, ac ambell un yn cysgu ar y bws ar y ffordd yn ol!

### Diolch

Hoffai disgyblion a staff yr ysgol ddiolch yn fawr i Mrs Bethan Williams am ei gwaith ymroddedig yn dysgu Blwyddyn 3 a 4 dros y tymor. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n ysbrydoliaeth i'r disgyblion ac yn cyfrannu'n sylweddol at eu dysgu a'u hyder. Roedd ei gofal, ei hamynedd a'i brwdfrydedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan bawb. Diolch o galon i Mrs Williams am ei hymrwymiad a'i chyfraniad gwerthfawr i'r ysgol.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at Brian Roberts (Corbri) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Margaret, gwraig a mam annwyl.

### Capel Carmel

Bu Rhagfyr yn fis prysur inni yng Ngharmel gyda'r gweithgareddau amrywiol ar gyfer y Nadolig. Diolch i'r gweinidogion am ein harwain yn ein pregethau drwy gyfnod yr Adfent.

**Y Clwb Gwau**
Anfonodd aelodau'r Clwb Gwau eu cynnyrch o flancedi, capiau a sgarffiau i elusen Plentyn y Nadolig. Cafwyd Te Nadolig blasus iawn yn y Clwb wedi ei baratoi gan Karen yn Erw Las.

**Y Chwiorydd**
Daeth nifer dda i De Bach y Nadolig yn yr Ysgoldy. Diolch i'r merched sy'n paratoi'r bwyd, yn cadw'r stondinau amrywiol; yn y gegin ac yn gweini wrth y byrddau; ac wrth y drws hefyd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

**Y Plant a'r ieuenctid**
Bu'r ymarfer yn ddiwyd ar gyfer eu gwasanaethau nhw.
Bu'r plant a rhai o genod Clwb Dwylo Prysur yn cynnau eu gwasanaeth ar y 14eg o'r mis. Ac wedyn ar y 28ain mi fu aelodau hynaf Clwb Dwylo Prysur yn cynnal eu gwasanaeth nhw. Diolch i'r plant a'r ieuenctid am wneud eu gorau a chynnal gwasanaethau rhagorol.

**Partion Nadolig**
Cawsom ein partïon Nadolig ar fore Sul i'r plant gydag ymweliad gan Siôn Corn, ac ar nos Wener i aelodau Clwb Dwylo Prysur.

Dymuniadau gorau gan blant ac aelodau Carmel am Flwyddyn Newydd Dda i drigolion yr ardal i gyd!



***Cysylltwch â ni:***
***golygydd@llaisogwan.com***

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

**PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Mae'r Awdurdod yn dymuno penodi Aelod Annibynnol ar gyfer ei Bwyllgor Safonau.

Mae'r swydd yn cael tâl ar ffurf ffi ddyddiol wedi'i gapio ar fwyafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol fel y mae'r angen i sicrhau cydbwysedd o sgiliau ac arbenigedd ar y Pwyllgor Safonau.
Bydd amrywiaeth daearyddol da fydd yn cynrychioli'r ardal gyfan hefyd yn cael ystyriaeth.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Ionawr 2026**

**Am ragor o fanylion a ffurflen gais, cysylltwch â:**
**G. Iwan Jones,**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol,**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,**
**Swyddfeydd y Parc, Penrhyndeudraeth,**
**Gwynedd LL48 6LF**
**01766 770274 neu:**
**parc@eryri.llyw.cymru**

**Ynni Ogwen**

## Apêl am wirfoddolwyr

**Fedrwch chi helpu Ynni Ogwen?**


Rydym yn chwilio am unigolion i fod ar y rota, i gadw llygad ar gynhyrchiant y tyrbin a sgubo dail oddi ar y sgriniau yn yr afon.

Dewch i gyfarfod y tîm o wirfoddolwyr i ddysgu am y gwaith a darganfod mwy.

**18:30 Nos Iau, 26 Chwefror 2026**
**Clwb Rygbi Bethesda**

**Am fwy o wybodaeth:**
**ynni@ogwen.org**
**07767 473209**

# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Sŵn pêr y glust di-ddiwedd, ond nid yw'n ddiogel o gwbl (8)
5 Dawn a medr (4)
7 Y tu mewn i ti (4)
8 Mil i oeri cyn i'r eira a rhew fod yn fwy trugarog (8)
9 "- - - - - - Ddrysau Mawl", cyfrol o wasanaethau crefyddol (2018) (5)
12 Hen feudwy duwiol a'i gapel ar ochr clogwyn serth yn Sir Benfro (2,5)
15 Atgasedd a chwerwedd (7)
19 Eiddo'r Môr-Ladron yn nheitl un o nofelau plant enwocaf T. Llew Jones (6)
21 Mae'r elusen yn hel i loan gael gwellhad. Dyna roi caredig (8)
22 Dyma'r fan briodol i roi atebion y croesair yma (4)
23 Dwy gôl; gêm gyfartal! (2,2)
24 Gwaredwr (8)

## I LAWR

1 Fel 10 i Lawr (6)
2 Esboniad sy'n gwneud synnwyr (5)
3 Nid melys fel mêl o'n gwenyn ond melyn sur o'r coed (5)
4 Afon y Cofis (6)
5 Dilladu (6)
6 Bod yn onest a chywir wnai un teg (6)
10 Uned o drymder (4)
11 Un fawr yn Arfon ac un hir yn Llŷn – dau bentref (4)
12 Maent yn arwain milwyr y South Wales Borderers (3)
13 "Y - - - - yn erbyn y byd, A oes heddwch?" (4)
14 Chwerw a sur ei - - - - yw 3 I Lawr (4)
15 Mynd yn feinach a thenau (6)
16 - - - - - - Trefin meddai Crwys y cyrchai merlyn efo'i gwenith (1,5)
17 I roi ein barn yn wawdlyd a choeglyd (6)
18 "Nid oes - - - - - - yn y tŷ hwn". Gosodiad enwog streic chwarel Penrhyn 1900-1903 (6)
19 Ceisiwch roi cynnig arni! (tafodieithol) (5)
20 Ffrwyth gwin cartref coch fel arfer (5)

Atebion erbyn 6ed Chwefror, 2026 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



**ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2025**

AR DRAWS 1 Datod, 5 Coban, 8 Irwen, 9 A Chwim, 10 Rhagolygon, 11 GTI, 12 Penderfynol, 15 Chwalu Tail Ar, 19 Eos, 20 Llanbadarn, 22 Delio, 23 Eglur, 24 Salon, 25 Emrys

I LAWR 1 Draig Goch, 2 Tiwlip 3 Dim Rhannu, 4 Gwagle, 5 Cnul, 6 Brigyn, 7 Nain, 13 Felindre, 14 Lobsgows, 16 Annwyl, 17 Anadlu, 18 Reslwr, 20 Llais, 21 Agen

Cafwyd nifer fach o gamgymeriadau y tro hwn : 'cnel' yn lle 'cnul' (5 I Lawr), 'a llwam' yn lle'a chwim' (9 Ar Draws) a 'Llanfarain' yn hytrach na'r ateb cywir 'Llanbadarn' (20 Ar Draws)

Mae'r canlynol i'w canmol am anfon atebion hollol gywir: Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Huw a Gwenno, Gerlan; Rita Bullock, Margaret Williams, Doris Shaw, Bethesda; John Ffrancon Griffith, Abergele; Judith Hughes, Llangoed; Gill King, Mynydd Llandygai; Barbara Jones, Talybont; Stella Dafis, Rachub; Rosemary Williams, Tregarth

Blwyddyn Newydd Dda i'n holl groeseirwyr, a phob lwc yn 2026. Mae gwobr gyntaf y flwyddyn yn mynd i Gill King, 4 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai, Bangor LL57 4DX. Llongyfarchiadau i chi.


MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION

A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com